Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen-y-bryn

Bethesda
Gwynedd
LL57 3BE

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pen-y-bryn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Pen-y-bryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 117 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 117 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 19.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 18.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/04/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/02/2018 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 16/06/2025 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Pen-y-bryn yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n dwysáu dealltwriaeth ac arddel gwerthfawrogiad disgyblion o'u treftadaeth yn llwyddiannus, ac yn eu hannog i edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus. Mae staff yn rhannu gweledigaeth glir i feithrin dinasyddion egwyddorol a mentrus sy'n falch o'u cymuned a'r iaith Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon sy'n meithrin medrau trawsgwricwlaidd ac sy'n adlewyrchu hanes, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus. Maent yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau yn yr ardal leol er mwyn cyfoethogi addysg disgyblion, fel wrth wahodd arbenigwyr i'r ysgol ac ymweld â safleoedd addysgol perthnasol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'u hardal leol fel cyfrwng i ddylanwadu'n  ehangach ar eu bywydau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn darllen testunau'n  annibynnol ac yn ysgrifennu'n greadigol. Mae athrawon yn ymgorffori cyfleoedd mentergarwch bwriadus yn y cwricwlwm fel dull o ddatblygu medrau disgyblion yn ystyrlon a chreu cysylltiadau ymarferol pellach â'r gymuned leol.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol sy'n annog disgyblion i feddwl a chydweithio'n llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn cynnig adborth adeiladol i ddisgyblion, sydd, yn ei dro, yn arwain at gynnydd parhaus ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cyflymder yr addysgu yn addas, ar y cyfan, ond ar adegau mae staff yn gor-arwain y disgyblion sy'n arafu'r dysgu ac yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol a chyflawni hyd orau eu gallu.

Mae staff yn hyrwyddo gofal a lles disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn magu perthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion sy'n cefnogi'r ddysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymddygiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn meithrin agweddau iach at ddysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a darparu her a chefnogaeth berthnasol i arweinwyr mewn modd adeiladol. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yr ysgol yn gadarn, ond nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso mor drwyadl ar draws y ffederasiwn cyfan.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau cyflymder addas ymhob sesiwn ddysgu i gryfhau medrau dysgu annibynnol disgyblion ymhellach

A2. Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ar draws y ffederasiwn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm eang ac ysgogol i ddisgyblion sy'n dathlu treftadaeth unigryw'r ardal, yn ogystal â darparu cyfleoedd bwriadus iddynt anelu at eu dyheadau yn y dyfodol. Mae staff yn rhannu gweledigaeth angerddol y pennaeth am ddatblygu'r disgyblion i fod ddinasyddion egwyddorol sy'n falch o'u cymuned a'r iaith Gymraeg. Trwy hyn, darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion roi cynnig ar fentrau yn eu hardal leol a thu hwnt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn arddel arwyddair yr ysgol: 'Gorau addysg, cael gwreiddiau', yn llwyddiannus.

Ym mron bob sesiwn ddysgu, mae staff yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn bwrpasol mewn gweithgareddau dysgu diddorol. Mae athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth yn fedrus i sicrhau bod y gweithgareddau yn gyfredol a pherthnasol tra'n adlewyrchu gwreiddiau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol yr ardal leol. Maent yn manteisio i'r eithaf ar wahodd ymwelwyr fel prifeirdd a haneswyr lleol i'r ysgol i gefnogi dysgu'r disgyblion, ac yn darparu ymweliadau ar eu cyfer yn yr ardal leol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwerthfawrogi hanes a diwylliant eu cymuned ynghyd â'i ddylanwad ehangach yn fyd-eang yn llwyddiannus, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at eu dealltwriaeth o berthyn i'w cymuned y mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol ohoni.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill â pharch, ac maent yn ymateb yn briodol i gyfraniadau eu cyfoedion. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan drafod eu dysgu yn fyrlymus. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda, sy'n eu galluogi i ymchwilio'n fedrus i wybodaeth a chysyniadau ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus, sy'n eu cymell i fod yn ddarllenwyr hyderus a mwynhau testunau amrywiol yn annibynnol. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau ysgrifennu cadarn, ac mae'r disgyblion hynaf yn dewis cyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth o ffurfiau diddorol gan ddefnyddio iaith aeddfed.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae athrawon yn datblygu medrau'r disgyblion yn fedrus drwy weithgareddau mentergarwch yn rheolaidd.

## Ciplun: Datblygu medrau, hyder a dyheadau disgyblion drwy brosiect mentergarwch

Mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau buddiol a chyfoethog i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd ariannol, ynghyd â medrau ehangach, fel llythrennedd a digidol. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio'n fentrus ac i ddatblygu eu menter eu hunain yn ystod y flwyddyn gan ddatblygu ymwybyddiaeth o hanfodion cynnal busnes, er enghraifft elw a cholled. Drwy gydol y flwyddyn, mae disgyblion yn trafod sut i wella eu menter ymhellach, datblygu eu cynnyrch a chreu ymgyrch farchnata effeithiol. Maent yn gwneud eu gorau i gynyddu'r elw drwy gylch o fuddsoddi parhaus, gwella ac ailfuddsoddi'r elw. Maent yn gwahodd busnesau lleol i'r ysgol er mwyn gosod cyd-destun lleol, go iawn iddynt wrth ddatblygu eu syniadau ymhellach. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus ac yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r economi leol a sut mae'n bosibl byw, gweithio a llwyddo yn y eu cymuned leol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion i adnabod beth maen nhw'n ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella yn eu dysgu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn llunio eu hamcanion dysgu eu hunain gyda hyder, ac o ganlyniad, maent yn ymwybodol o sut i wirio eu gwaith cyn ei gyflwyno'n orffenedig. Mae athrawon yn holi'r disgyblion yn fedrus gan ofyn cwestiynau sy'n cymell disgyblion i feddwl yn ddwys a chydweithio â'u cyfoedion er mwyn llwyddo. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon ac yn symud at y cam nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae cyflymder yr addysgu yn addas. Er hyn, ar ychydig o achlysuron, mae oedolion yn gor-arwain y disgyblion, sydd, yn ei dro, yn arafu'r dysgu a chyfyngu ar y cyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol a chyflawni hyd orau eu gallu.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn hyrwyddo lles disgyblion yn hynod effeithiol sy'n cyfrannu'n fwriadus at gefnogi'r disgyblion i fwynhau eu dysgu. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol a chynhaliol â'r disgyblion sy'n cyfrannu'n fwriadus at eu gallu i adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda er mwyn eu cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn arbennig o dda yn eu dysgu a'u chwarae.

Mae'r cydlynwyr ADY yn cydweithio'n effeithiol ar draws y ffederasiwn i nodi a gweithredu ar anghenion disgyblion yn brydlon. Mae ganddynt berthynas lwyddiannus ag ystod eang o bartneriaid proffesiynol allanol. Mae'r rhain yn helpu cryfhau'r ddarpariaeth ac yn darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr i staff a rhieni. Mae athrawon a'r cydlynwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o anghenion, diddordebau a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at y ddarpariaeth a bod disgyblion ag ADY yn elwa o gymorth bwriadus. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi'r  rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd da. Mae

gan arweinwyr drefniadau effeithiol ar draws y ffederasiwn ar gyfer cefnogi disgyblion i drosgwlyddo o'r naill ddosbarth i'r llall ynghyd ag i'r ysgol uwchradd.

Mae'r grwpiau llais y disgybl yn galluogi disgyblion i gynrychioli eu cyfoedion ac i gydweithio'n ddiwyd i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r grwpiau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn fedrus ac yn datblygu medrau arwain drwy reoli ac arwain prosiectau ysgol gyfan.

Cefnogir y pennaeth gan dîm ymroddgar a brwdfrydig o staff sy'n rhannu ei angerdd am les disgyblion a'r angen i gefnogi pob disgybl i gael y gefnogaeth i lwyddo. Mae staff y ddwy ysgol o fewn y ffederasiwn yn cydweithio'n llwyddiannus ar lawer o agweddau er mwyn hybu medrau disgyblion a darparu cwricwlwm cyffrous ac ysgogol ar eu cyfer. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau disgyblion ar draws y ffederasiwn.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yr ysgol yn gadarn. Mae arweinwyr a staff yn cynnal amrywiaeth briodol o weithgareddau monitro a sicrhau ansawdd sydd yn adnabod cryfderau ac agweddau i'w gwella yn gywir. Er hyn, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso yn ddigon cadarn ar draws y ffederasiwn er mwyn adnabod y blaenoriaethau gwella yn ddigon effeithiol. Trwy hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau wrth gefnogi arweinwyr i arwain a sicrhau rhediad cyson i'r ffederasiwn. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd ac yn trefnu gweithgareddau monitro buddiol er mwyn gwella eu hadnabyddiaeth o'r ysgolion yn well. Maent yn craffu ar waith ac yn siarad â disgyblion gan ganolbwyntio ar ffocws pendant o'r cwricwlwm gan gefnogi'r arweinwyr yn gyson. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o elfennau o ddysgu'r disgyblion, er enghraifft y cynnydd yn eu medrau llafar.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/08/2025